**Cross Party Group for North Wales**
**Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru**

# Nodyn o Gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2018: Cymryd Cyfleoedd Trawsffiniol i Dyfu Economi Gogledd Cymru

## Yn Bresennol

Llyr Gruffydd AC (yn Cadeirio), Mark Isherwood AC, cynrychiolydd Michelle Brown AC (Chrissie Gee) a Stephen Jones (CLlLC)
Y Cynghorydd Marc Jones (Wrecsam) a Mabon ap Gwynfor, Swyddfa Llyr Gruffydd AC
Ymddiheuriadau:
Ken Skates AC, Hannah Blythyn AC, Ann Jones AC, Sian Gwenllian AC, Rhun ap Iorwerth AC, Darren Millar AC a Michelle Brown AC
Ian Lucas AS, Liz Saville Roberts AS.

Siaradwyr:

- Iwan Trefor Jones (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru),
- Charlie Seward (Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy)
- Emma Wynne (Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy)

## Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd Llyr Gruffydd AC y cyfarfod.

## 1. Bargen Dwf Gogledd Cymru – Cysylltiadau Traws Ffiniol a'r Wybodaeth Ddiweddaraf

Cafwyd cyflwyniad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Datblygu Cynnig Twf Gogledd Cymru a Chyfarwyddwr Corfforaethol gyda Chyngor Gwynedd.

Mae Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru 2016 yn darparu'r fframwaith ar gyfer y Cynnig Twf sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd. Mae'r Weledigaeth yn seiliedig ar ddatblygu cysylltiadau gyda rhanbarthau cyffiniol: -

- Gogledd-Orllewin Lloegr drwy gysyniad Pwerdy'r Gogledd
- Canolbarth Cymru drwy gysylltiadau gwledig
- Iwerddon drwy Borthladd Caergybi

Mae Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yn cynnwys adeiladu ar sectorau cryfaf y rhanbarth o ran: -

- Gweithgynhyrchu Uwch
- Cynhyrchiad Ynni
- Twristiaeth Gwerth Uchel, yn enwedig Twristiaeth Antur

Datblygwyd y Weledigaeth: -

- I ddarparu sail resymegol ar gyfer lobïo i sicrhau cyllid ar gyfer amryw o brosiectau a fydd yn mynd i'r afael â'r rhwystrau i ddatblygu economaidd yn y rhanbarth a galluogi twf o ran cynhyrchiant y rhanbarth. Mae'r Cynnig Twf yn un ffynhonnell ariannu ar gyfer y prosiectau a nodwyd yn y Ddogfen Weledigaeth. Mae'r Gronfa Ffyniant a Rennir arfaethedig a Chronfeydd Eraill y DU ar gyfer Bargeinion Sector ac Arloesi yn ffynonellau ariannu posibl ar gyfer Prosiectau'r Weledigaeth Dwf yn y dyfodol.

- I ddarparu fframwaith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y rhanbarth, gan alluogi i bartneriaid sydd wedi ymrwymo i ddatblygiad economaidd y rhanbarth, megis y chwe Chyngor, y ddwy Brifysgol a'r Colegau AB a Llywodraeth Cymru, uno â'r Weledigaeth a chydweithio i ddatblygu'r rhanbarth yn well a datblygu cyn gynted â rhanbarthau eraill yng Nghymru a'r DU.

- I leihau'r rhwystrau i dwf y sector preifat. Roedd hyn yn golygu trafodaethau helaeth â chyflogwyr, grwpiau cynrychioli busnesau megis cyngor busnes y rhanbarth a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain / Ffederasiwn Busnesau Bach. Tynnodd y busnesau a'u cyrff cynrychioladol sylw at y rhwystrau canlynol y byddent yn dymuno eu gweld yn cael eu datrys: -
    - Diffyg tir sy'n barod i'w ddatblygu ar gyfer cyflogaeth
    - Diffyg unedau busnes o ansawdd da sydd ar gael yn hawdd
    - Cymorth i fusnesau sydd wedi'i dargedu'n well a mynediad at gyllid
    - Pobl ifanc â gwell sgiliau sy'n barod am gyflogaeth
    - Isadeiledd cludiant gwell
    - Mynediad da at rwydweithiau digidol - band eang a rhwydweithiau ffôn symudol.

Mae'r Weledigaeth yn mynd tu hwnt i hyrwyddo twf, mae'n ceisio ystyried anghenion ardaloedd gwledig a threfol a chyflawni "twf cynhwysol". Mae Aelodau Etholedig yn awyddus i weld y twf yn darparu buddion ar gyfer aelwydydd sydd ar hyn o bryd yn ddi-waith neu'n byw ar incwm aelwyd isel. Mae Fframweithiau Polisi Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr hefyd yn ceisio hyrwyddo'r cysyniad o dwf cynhwysol.

Mae'r Weledigaeth Dwf wedi'i halinio gyda chynlluniau Pwerdy'r Gogledd ar gyfer twf ac mae'n rhannu llawer iawn o'r un sectorau twf a blaenoriaethau. Mae cyfleoedd trawsffiniol ar gyfer twf wedi dylanwadu ar y Weledigaeth a'r strategaeth i'w chyflawni. Mae hyn yn cynnwys deialog â Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy a Phwerdy'r Gogledd, cynlluniau ar gyfer cysylltiadau gwell ag Iwerddon a chynnwys economi'r tir mewn cynlluniau ar gyfer twf.

Mae Cynnig Twf Gogledd Cymru yn deillio o'r Weledigaeth o ran ei fod yn ceisio sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau sydd wedi'u diffinio yn nogfennau'r Weledigaeth ac sy'n cefnogi twf o fewn sectorau gwerth uchel ac allweddol y rhanbarth, sef: -

- Gweithgynhyrchu Uwch
- Cynhyrchiad Ynni
- Twristiaeth Antur

Mae strategaeth y rhanbarth hefyd yn gofyn am fuddsoddiad mewn galluogwyr allweddol er mwyn caniatáu i'r sectorau gwerth uchel dyfu: -

- Isadeiledd a Gwasanaethau Cludiant
- Isadeiledd a Gwasanaethau Digidol
- Safleoedd ac Adeiladau
- Sgiliau

Mae'r Cynnig Twf: -

- Yn ceisio buddsoddiadau mewn prosiectau i symud ymlaen â'r galluogwyr hyn yn ogystal â'r sectorau allweddol.
- Wedi gweld datblygiad syniadau sy'n golygu y bydd llawer o brosiectau yn gwneud cyfraniadau sylweddol i ddatgarboneiddio economi'r rhanbarth.
- Yn anelu i gefnogi twf a fydd yn darparu swyddi o ansawdd uchel a fydd yn cynyddu Gwerth Ychwanegol Gros y rhanbarth ac yn lleihau'r bwlch Gwerth Ychwanegol Gros sydd rhwng Gogledd Cymru a chyfartaledd y DU.

Mae Prosiectau'r Cynnig Twf yn cynnwys: -

<u>Gweithgynhyrchu Uwch</u>

Bydd Canolfan Beirianneg Glyndŵr yn adeiladu ar / yn gysylltiedig ag Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRI) 2 Glannau Dyfrdwy (ac AMRI 1 ym Mrychdyn sy'n gwasanaethu Airbus). Bydd yn ceisio datblygu technegau peirianyddol arloesol a ellir eu cyflwyno i'r diwydiant drwy ei ganolfannau ymchwil ac arloesedd arfaethedig yn Wrecsam a Llanelwy (Optig).

<u>Ynni</u>

Bydd Canolfan Ragoriaeth Niwclear Arfaethedig Prifysgol Bangor yn cefnogi datblygiad Wylfa Newydd a'i gadwyn gyflenwi yn ogystal â safle'r dangosydd Adweithydd Modiwlar Bach arfaethedig yn Nhrawsfynydd.

Mae gan y sector Gweithgynhyrchu Uwch a'r Sector Ynni yng Ngogledd Cymru gysylltiadau trawsffiniol cryf a photensial pellach i dyfu os yw'r rhwystrau o ran gweithio'n drawsffiniol yn cael eu dymchwel.

<u>Economi'r Tir</u>

Y syniad diweddaraf o fewn datblygiad y Cynnig Twf yw uno twristiaeth ac amaethyddiaeth i greu sector "economi'r tir".

Bydd prosiect yn cael ei ddatblygu i gefnogi dynodiad parc cenedlaethol newydd neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Ngogledd Cymru, ynghyd â phrosiectau i gefnogi'r sector twristiaeth i ymestyn y tymor a darparu cyflogaeth fwy sefydlog.

Mae prosiectau i ddatblygu amaethyddiaeth a chynhyrchiad bwyd. Bydd prosiect Glynllifon yn darparu ffordd o gysylltu amaethyddiaeth â'r sector bwyd a diod tra bydd y prosiect Llysfasi yn canolbwyntio ar roi technoleg newydd ar waith ym maes cynhyrchiad

amaethyddiaeth gan ddarparu canolfan ymchwil a datblygu gweithgynhyrchu uwch ar gyfer ffermio!

Mae prosiect Porthladd Caergybi (Porth) yn hanfodol ar gyfer cysylltiadau ag Iwerddon, yn enwedig yng ngoleuni Brexit. Bydd y datblygiad arfaethedig yn gwella isadeiledd sylfaenol y porthladd gan ei alluogi i gefnogi masnach ag Iwerddon yn well, darparu mynediad at Wylfa Newydd, ymgymryd â rôl gwasanaeth mewn perthynas â sector ynni'r llanw sydd yn dod i'r amlwg a gwynt ar y môr a chefnogi twristiaeth yn well drwy ddatblygu glanfa bwrpasol ar gyfer llongau mordeithio.

Bydd prosiectau o fewn y rhaglen safleoedd ac adeiladau arfaethedig hefyd yn cefnogi'r economi drawsffiniol.

Bydd y Prosiect Digidol yn ceisio sicrhau treiddiad ffeibr llawn ar gyfer Gogledd Cymru. Gallai'r hyn a ddatblygir ar gyfer Gogledd Cymru ddarparu rhywbeth tebyg ar gyfer Canolbarth Cymru.

Bydd datblygiad parhaus y perthnasau o fewn y Bwrdd Uchelgais Economaidd a'i gapasiti yn galluogi cysylltiadau agosach ag awdurdodau cyffiniol a'u cyfryngwyr megis Partneriaethau Menter Lleol a Byrddau Dinas-Ranbarth.

Mae'r Cynnig Twf wedi galluogi i fomentwm ac ynni ddatblygu o amgylch y Bwrdd Uchelgais. Disgwylir y bydd Cynnig Twf o £240m yn cael ei gwblhau yn ystod y misoedd nesaf. Gall y Bwrdd geisio adnoddau gan ffynonellau eraill ar gyfer prosiectau o fewn y Weledigaeth nad ydynt wedi'u hariannu gan y Cynnig Twf.

Gallai gweithio gyda phartneriaid trawsffiniol gynnig mynediad at gyfleoedd ariannu o'r fath e.e.  y gronfa cryfder mewn lleoedd a sgiliau.

## 2. Cyflwyniad gan Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy

Cafwyd cyflwyniad gan Charlie Seward.

Mae Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yn bartneriaeth anffurfiol rhwng pedwar o awdurdodau lleol: Sir y Fflint, Wrecsam, Gorllewin Sir Gaer a Chaer a Chilgwri a gefnogir gan y sefydliadau allweddol sydd wedi'u lleoli o fewn yr ardaloedd hyn, e.e. Prifysgolion Caer a Glyndŵr yn Wrecsam, y Colegau AB; Coleg Cambria a Choleg Gorllewin Sir Gaer, Merseytravel / Rhanbarth Dinas Lerpwl a Llywodraeth Cymru.

Y rheswm dros y gynghrair yw'r angen i gydlynu polisi ar draws ffiniau gweinyddol er budd economi gweithredol integredig. Mae hyn yn gofyn am orgyffwrdd gyda chyrff statudol a sefydlwyd gan lywodraethau sy'n gweithredu o fewn y ffiniau gweinyddol megis y Bartneriaeth Menter Lleol a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae ardal y Gynghrair fel economi yn ganolbwynt allweddol o fewn Pwerdy'r Gogledd gyda gwerth ychwanegol gros o £22bn, poblogaeth o bron i filiwn o bobl (900k+) ac asedau economaidd sylweddol: -

- Canolbwynt gweithgynhyrchu allweddol

- Parciau diwydiannol mawr ac asedau gwyddoniaeth
- Clystyrau gwasanaethau proffesiynol ac ariannol sy’n bwysig yn fyd-eang
- Prifysgolion

Caiff natur integredig yr economi ei harddangos drwy lifau cymudo trawsffiniol a chanran uchel o bobl yn byw ac yn gweithio yn yr ardal economaidd gyfun (83%).

Mae’r ardaloedd trefol wedi’u dosbarthu. Mae Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yn endid economaidd lluosganolog. Mae ardaloedd tebyg yn Yr Iseldiroedd ac yn yr ardaloedd ar ffin Ffrainc, yr Almaen a’r Swistir. Fodd bynnag, mae endid economaidd Cynghrair Mersi a’r Ddyfrdwy yn eithaf prin.

Mae’r ardal yn llwyddiannus ond mae ganddi’r potensial i fod yn fwy llwyddiannus a thyfu’n gynt drwy ddosbarthu buddion yn well ar draws yr ardal (o ran ardaloedd cyfoethog ac ardaloedd o amddifadedd).

Mae gan Gynghrair Mersi a’r Ddyfrdwy gynlluniau felly i ddyblu’r Gwerth Ychwanegol Gros, ychwanegu 50,000 o swyddi newydd ac adeiladu tai newydd gyda thwf poblogaeth dros y degawdau nesaf. Mae’r uchelgeisiau hyn wedi’u cynnwys yn y cynlluniau datblygu lleol ac yn ystyried yr angen i ddiogelu harddwch yr ardal a diwylliannau lleol unigryw, yn enwedig yng Nghymru.

Mae'n rhaid i dwf fod yn gynaliadwy a mynd i’r afael ag amddifadedd sydd yn drefol ac yn lled-wledig ar draws y pedwar awdurdod lleol.

Mae’r economi yn amrywiol gydag ystod o sectorau a mathau gwahanol o gwmnïau (maint, perchnogaeth, pencadlys ac ati). Mae partneriaeth Cynghrair Mersi a’r Ddyfrdwy yn dymuno annog twf a lleihau effaith ffiniau gweinyddol gyda chyfundrefnau polisi gwahanol ar addysg, sgiliau a chymorth busnes ar berfformiad economaidd.

Mae’n rhaid i gwmnïau’r ardal (ar ddwy ochr o’r ffin) drafod trefniadau gwahanol i gefnogi mewnfuddsoddi, cefnogaeth allforio, cymorth busnes a sgiliau.

Mae Cynghrair Mersi a’r Ddyfrdwy yn ceisio annog twf drwy fewnfuddsoddi a thwf organig o'r sectorau a’r cwmnïau presennol. Mae’r canlynol yn allweddol i’r amcan hwn: -

- Cefnogi gwaith ymchwil, datblygiad ac arloesedd drwy ddatblygu asedau gwyddoniaeth ac ymchwil (megis y prifysgolion a’r parciau gwyddoniaeth)

- Gwell cymorth i fusnesau gydag un llwybr hawdd at gymorth i fusnesau.

- Mynd i’r afael â gwella sgiliau a lleihau’r rhwystrau i uwchsgilio, sy’n deillio o gael gweithluoedd sy’n byw ar ddwy ochr i’r ffin.

- Gwella cludiant a meddwl am fuddsoddiad a gwasanaethau cludiant o ran gwasanaethu’r economi trawsffiniol. Mae isadeiledd cludiant gwael a hen ffasiwn a chynllun gwasanaeth cludiant cyhoeddus tameidiog yn ei gwneud yn amhosib i unigolion dderbyn rhai o’r swyddi sydd ar gael yn yr ardaloedd hyn gan fod teithio’n

anodd ac yn ddrud os nad oes gennych gar. Pan fo gennych gar, mae'r ardal yn fwyfwy prysur ar gyfer teithio.

Dim ond un y cant o gymudwyr sy'n defnyddio trenau i deithio i'r gwaith yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Mae datblygu dull trawsffiniol i gynllunio a chomisiynu cludiant cyhoeddus yn hanfodol.

Mae cyfle i fod yn arloesol gydag ynni yn ardaloedd ehangach Gogledd Cymru a'r ardaloedd trawsffiniol oherwydd bod cynhyrchiad ynni a defnyddwyr ynni mawr, megis CF Fertiliser, Capenhurst a gwneuthurwyr gwydr, wedi'u lleoli ar draws ardal ddaearyddol fawr.

Mae her fawr yn ein wynebu o ran sut i roi'r sgiliau cywir i'n pobl ar gyfer y dyfodol, gyda chyflogwyr ar ddwy ochr i'r ffin yn gallu cydnabod y cymwysterau o'r ddwy ochr.

Mae gan Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy amryw o brosiectau pwysig y mae'n eu cefnogi i geisio cyllid drwy'r cyrff cyhoeddus ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru a Lloegr, megis Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Menter Lleol Swydd Gaer a Warrington ac asiantaethau datblygu Saesnig penodol a threfniadau ariannu ar gyfer Busnes, Tai a Chludiant. Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Porth y Gogledd (Glannau Dyfrdwy)
- Dyfroedd Cilgwri (Dociau Birkenhead)
- Ystâd Ddiwydiannol a Pharc Technoleg Wrecsam
- Caer (Northgate)
- Ellesmere Port

Mae dod â'r cynlluniau hyn ynghyd yn galluogi dull integredig, llai cystadleuol sydd wedi'i reoli'n well o ran datblygiad, gyda thai a chludiant wedi'u cynnwys yn y cynlluniau gofodol ehangach.

Mae Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy wedi blaenoriaethu cludiant, gan gefnogi a chymryd rhan yn: -

- GT360
- Trafodaethau Metro Gogledd Cymru
- Astudiaethau Ffyrdd Trawsffiniol i geisio agor safleoedd pwysig megis Warren Hall (Brychdyn) a datrys materion yn ymwneud â mannau problemus o ran traffig a thagfeydd megis cylchfan Post House yr A55/A483.

Mae Llywodraethau wedi ymateb drwy ddechrau gweithio ar draws ffiniau a chydnabod yr angen i feddwl yn gyfannol o ran trenau a rheilffyrdd: -

- Gorsaf Caer
- Achosion Busnes Amlinellol Strategol Gogledd Cymru a Wrecsam i Fersi

Mae gan ardaloedd Gogledd Cymru a Swydd Gaer a Warrington asedau ynni sylweddol o ran niwclear, llanw, gwynt ac ynni o wastraff. Mae gwaith wedi dechrau (drwy'r uwchgynhadledd ynni diweddar) ar ynni a sgiliau: -

- Sut i ddod â'r asedau ynni ynghyd yn y rhanbarth, eu cefnogi a datblygu eu cadwyni cyflenwi

- Datblygu gridiau sy'n fwy hunangynhwysol i gynnig gwell gwerth a chyflenwad mwy cadarn i ddefnyddwyr ynni mawr ac ailgylchu ynni gan ddefnyddwyr mawr
- Nodi cynhyrchiad hydrogen yn y rhanbarth
- Archwilio'r posibilrwydd ar gyfer Dal Carbon (Bae Lerpwl)

Mae gwaith sgiliau yn parhau e.e. y symposiwm diweddar dan arweiniad y tair prifysgol (Bangor, Caer a Wrecsam – Glyndŵr)

Y cam nesaf ar gyfer Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yw datblygu rhaglen fuddsoddi sy'n deillio o'r prosbectws i hyrwyddo i lywodraethau am fuddsoddiad.

## 3. Trafodaeth a Gweithredoedd

Mewn ymateb i gwestiynau gan Llyr Gruffydd, cadarnhawyd nad yw Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yn ceisio cadw arian (gan lywodraethau) na dod yn gorff cyflawni.

Mae'r Gynghrair yn dod ag uchelgeisiau strategol a phrosiectau'r partneriaid ynghyd ac yn darparu cyfrwng i'w hyrwyddo i gyllidwyr. Mae rhannu a chydlynu prosiectau yn eu galluogi i wella er mwyn addasu i'r amgylchedd trawsffiniol, rheoli cystadleuaeth a gwasanaethu'r economi trawsffiniol yn well. Caiff prosiectau eu cyflawni gan awdurdodau unigol neu'r cyd-bartneriaethau datblygu economaidd y maent yn rhan ohonynt e.e. Rhanbarth Dinas Lerpwl neu Partneriaeth Menter Lleol Swydd Gaer a Warrington.

Mae Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yn ceisio'n benodol i osgoi'r cymhlethdodau o wneud penderfyniad a llywodraethu sy'n dod law yn llaw ag arfer swyddogaethau statudol neu ddirprwyedig, cadw arian a bod yn gyfrifol am gyflawni prosiectau penodol. (Mae hyn yn cyferbynnu'n llwyr â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sydd am fod yn gydbwyllgor gyda phwerau dirprwyedig gan awdurdodau lleol a gyda chytundeb i gyflawni cynlluniau penodol a ariennir gan lywodraethau).

Gofynnodd Mark Isherwood gyfres o gwestiynau: -

- Pryd mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymrwymo i swm ar gyfer Bargen Dwf Gogledd Cymru?
- A yw trywydd Llywodraeth Cymru o ran datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau yn gwrthdaro â Chynnig Twf Gogledd Cymru? (Prif Swyddog Rhanbarthol Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, yr uchelgeisiau ar gyfer Trafnidiaeth Cymru ac ati)
- Beth yw statws cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ffeibr band eang yng nghyd-destun materion Cymorth Gwladwriaethol a oedd yn berthnasol i ddarpariaeth amgen gan Prosiect Olynol Cyflymu Cymru? (https://www.itstechnologygroup.com/our-networks/north-mid-wales/)

Mynegodd bryderon: -

- Bod Llywodraeth Cymru (drwy Croeso Cymru) yn ffafrio brand cenedlaethol dros frandiau rhanbarthol ym maes twristiaeth.
- Bod llawer o sensitifrwydd ynghylch datblygu dulliau rhanbarthol i ddatblygu economaidd, ar lefel leol a chenedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru.
- Bod contract rheilffordd Trafnidiaeth Cymru wedi profi problemau yn y dechrau yn dilyn atal gwasanaethau rheilffordd dros dro rhwng Wrecsam a Bidston, a oedd yn

cyd-daro â Chyfarfod Blynyddol Cymdeithas Defnyddwyr y Rheilffordd Wrecsam i Bidston.

Cafwyd trafodaeth ar natur y berthynas rhwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru a'r hyn i anelu ato yn y dyfodol.

Roedd consensws y dylai Swyddfa Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Thîm Rhanbarthol Llywodraeth Cymru gydweithio. Ar hyn o bryd mae perthynas anesmwyth rhwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae Arweinwyr (mewn Cynghorau) yn awyddus i gael mwy o ddylanwad dros ddatblygiad economaidd y rhanbarth ac maent eisiau bod yn bartneriaid cyfartal gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Arweinyddiaeth strategol y rhanbarth. Maent eisiau teilwra polisïau cenedlaethol i weddu sefyllfaoedd a blaenoriaethau rhanbarthol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch pryderon Llywodraeth Cymru am ddod â rhanbarthau ynghyd (nid yn unig yng Ngogledd Cymru) oherwydd y posibilrwydd y gallai'r pŵer symud o'r canol (Gweinidogion ac Uwch Weision Sifil).

Nodwyd bod tensiynau rhanbarthol a chenedlaethol tebyg hefyd i'w cael dros y ffin!

## Casgliadau a Gweithredoedd

- Dylai rhanbarthau Cymru gydweithio (dod â Chadeiryddion y tri rhanbarth ynghyd) i symud ymlaen â datganoli yng Nghymru sy'n defnyddio'r profiadau gorau yn Lloegr.

- Mae angen i'r rhanbarth gael mynediad at fwy o gyllid Llywodraeth y DU a gwasanaethau megis Innovate UK a Masnach a Buddsoddi'r DU.

- Dylai'r Grŵp geisio ymgysylltu'n gynnar â Gweinidog yr Economi newydd Llywodraeth Cymru (unwaith y bydd hyn wedi'i gadarnhau ar ôl yr Etholiad Arweinyddiaeth) i drafod y mater hwn i drafod balans darpariaeth gwasanaeth rhanbarthol a chenedlaethol.

- Bydd y Grŵp yn ysgrifennu at Weinidog yr Economi i geisio trefnu cyfarfod a gwneud safbwyntiau'r grŵp yn hysbys o ran dymunoldeb Swyddfa Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Thîm Rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn cydweithio.

## 4. Unrhyw Fater Arall

Cafwyd trafodaeth am y busnes i'w drafod yng nghyfarfodydd 2019: -

- Cyfarfod HS2, gyda rhestr eang o wahoddedigion, ym mis Chwefror / Mawrth 2019 (ar ôl 18 Chwefror 2019) yng Ngogledd Cymru.

- Cyfarfod ar gynllun rhanbarthol Llywodraeth Cymru a'r rhyngwyneb sy'n cael ei ddatblygu rhwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a WB ym mis Mehefin / Gorffennaf 2018, mwy na thebyg yng Nghaerdydd.